

LEWIS LLOYD, EMMELINE (1827 - 1913), un o'r merched cyntaf oll i ddringo yn yr Alpau

Enw: Emmeline Lewis Lloyd

Dyddiad geni: 1827

Dyddiad marw: 1913

Rhiant: Anna Eliza Lewis Lloyd (née Davies)

Rhiant: Thomas Lewis Lloyd

Rhyw: Benyw

Galwedigaeth: un o'r merched cyntaf oll i ddringo yn yr Alpau

Maes gweithgaredd: Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden

Awdur: Ioan Bowen Rees

Ganwyd 18 Tachwedd 1827, yn ail ferch Thomas Lewis Lloyd o Nantgwyllt (y plasty yng Nhwm Elan lle bu Shelley yn aros yn 1812 ond a foddwyd wrth greu cronfa'r Caban Coch) a'i wraig Anna Eliza Davies, merch Treforgan ger Aberteifi. Ar ôl gadael cartref, bu Emmeline yn ffermio a magu merlod mynydd yn Llandyfaelog Fach ger Aberhonddu. Gyda'i sêl am bysgota, hela'r dyfrgi a chrwydro'r bryniau, ystyrir hi yn dipyn o gymeriad ac yr oedd wrth ei bodd yn adrodd hanes ei theithiau a'i gorchestion. Ei hynodrwydd pennaf yw iddi fynd i'r Alpau i ddringo mynyddoedd yn gyson yn ystod yr 1860au a'r 1870au. Rhyw hanner dwsin o ferched yn unig a ddringai yn y cyfnod hwn ac ar wahân, efallai, i Lucy Walker o Lerpwl (1835 - 1916) y mae'n amheus a ymroddodd yr un ohonynt i ddringo o'i blaen hi. Dringai Lucy Walker yn ddiethriad gyda'i thad a'i brawd, ond merch arall, Isabella Straton, oedd cydymaith arferol Emmeline. Bu hefyd yn dringo gyda'i chwaer ieuengaf, Bessie, a briododd William Williams, ficer Llandyfaelog. Treuliodd ei thywysydd arferol, Jean Charlet o Argentièrre, flwyddyn yn wastrawd yn Nantgwyllt : flynyddoedd wedyn priododd Isabella. Ychydig o fanylion ynghylch esgyniadau Emmeline sydd ar gael ond hyhi oedd yr wythfed ferch i ddringo'r Mont Blanc ac ar 22 Medi 1871, hyhi (yn 44 oed) gydag Isabella a'r tywysydd Joseph Simond a gyflawnodd esgyniad cyntaf yr Aiguille du Moine (3412 m. neu 11,194 tr.) ger Chamonix. Yr un flwyddyn dringodd y ddwy ferch Monte Viso gyda Jean Charlet. Rhoddodd y ddwy gynnis aflwyddiannus ar y Matterhorn mor gynnar ag 1869, 4 blynedd ar ôl yr esgyniad cyntaf alaethus. Bu farw 22 Medi 1913, yn Hampstead Hill Gardens, Llundain, a'i chladdu yn Llansanffraid Cwmteuddwr, lle mae cofeb iddi yn yr eglwys.

Awdur

Dr Ioan Bowen Rees, (1929 - 1999)

Ffynonellau

The Radnor Express, 2 Hydref 1913

H. M. Vaughan, *The South Wales Squires, a Welsh picture of social life* (Llundain 1926), pennod XIV

Ronald Clark, *The Victorian Mountaineers* (Llundain 1953), 178-81

Guide Vallot La Chaine du Mont Blanc (1965), 3

Nea Morin, *A Woman's Reach Mountaineering memoirs* (Llundain 1968), Appendix 2: 'A survey of some notable feminine ascents'

gwybodaeth oddi wrth y Cadfridog Robert S. Lewis, Rhaeadr Gwy, (gor-nai)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Emmeline Lewis Lloyd](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q16203457](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Preifatrwydd a Chwciis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn eiddo gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government